Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Enw **Huw Thomas** Cwmni/Sefydliad **NFU Cymru**

Mae NFU Cymru yn cynrychioli 15,000 o aelodau yng Nghymru ac yn falch o ymateb i ymgynghoriad S4C ar ddyfodol rhaglenni digidol i blant.

Tra'n cydnabod pwysigrwydd ehangu gwasanaethau pant rydyn ni'n pryderu am yr effaith y gallai hyn ei gael ar ddarlledu gweithgareddau'r Cynulliad.

Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999, mae NFU Cymru wedi bod yn dilyn y datblygiadau ym Mae Caerdydd yn fanwl. Mae teledu gweithgareddau'r Cynulliad ar S4C2 wedi bod yn gyfrwng arbennig i fonitro a dilyn digwyddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac rydyn ni'n pryderu am y syniad o dorri ar y darllediadau yn y ffordd a awgrymir yn y ddogfen ymgynghorol.

Ar adeg pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn ennill mwy o bwerau i ddeddfu yn yr 20 maes y mae'n gyfrifol amdanyn nhw, mae hyd yn oed yn bwysicach fod gweithgareddau'r Cynulliad yn cael eu dangos yn fyw ar y teledu. Byddai dileu neu leihau'r darlledu nawr yn gam yn ôl, ym marn yr NFU. Er nad oes dim gwell na mynd i'r Cynulliad ei hun weithiau, does dim dwywaith fod yr opsiwn o gael y gwasanaeth ar y teledu yn arbed llawer o deithiau car, ac yn arbed amser i'r bobl hynny nad ydyn nhw'n byw yng Nghaerdydd. Gwn, o siarad gyda'n haelodau, fod llawer ohonyn nhw yn gwylio yn gyson, yn enwedig os oes rhywbeth perthnasol iddyn nhw yn cael ei drafod yn y Siambr. Mewn llawer achos, dyma'r unig gyfle sydd gan bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig i ymwneud â'r Cynulliad o gwbl.

O'r tri opsiwn a amlinellir yn eich papur ymgynghorol byddem ni'n ffafrio opsiwn 3 yn ddelfrydol, gyda'r lefel bresennol o ddarlledu yn para ynghyd â gwasanaeth di-dor i blant ar ofod newydd neu sbâr. Byddai'r opsiwn hwn yn ateb gofynion plant a'r rheiny sydd am ddilyn gweithgareddau'r Cynulliad Cenedlaethol. Rydyn ni'n ymwybodol, fodd bynnag, y gallai ystyriaethau ariannu a diffyg gofod wneud yr opsiwn hwn yn amhosib.

Os yw Opsiwn 3 yn amhosib, rydyn ni o'r farn mai Opsiwn 3 fyddai'n sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng pwysigrwydd rhaglenni Cymraeg i blant a'r angen i gael darlledu byw o'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yn wyneb yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion rhaglenni plant a darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol, byddem yn siomedig iawn petae S4C yn penderfynu ar opsiwn 2 a rhoi'r gorau i ddarlledu o'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfangwbl. Pe bae S4C yn penderfynu ar yr opsiwn hwn, fe fydden ni am gael sicrhad y byddai'r gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo yn syth a heb doriad i ddarlledwr trydydd parti, na fyddai unrhyw ddirywiad yn lefel y darlledu ac y byddai ar gael yn yr un ffordd ag y mae ar hyn o bryd, h.y. ar deledu lloeren, daearol a chêbl.

Rwy'n gobeithio bod fy sylwadau o fudd, ac os hoffech drafod ymhellach mae croeso ichi gysylltu â fi.